## Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## STRATEGAETH DAI GENEDLAETHOL I GYMRU – YSTYRIED Y PAPUR YMGYNGHOROL DRAFFT

### PWRPAS

1. Mae'r papur hwn yn gwahodd y Pwyllgor i fynegi barn ar y papur ymgynghorol drafft ar gynigion y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer strategaeth dai genedlaethol i Gymru 'Gwell Cartrefi ar Gyfer Pobl Cymru' (Atodiad).

### ARGYMHELLIAD

2. Bod y Pwyllgor yn ystyried y papur ymgynghorol drafft ac yn cyflwyno safbwyntiau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

### AMSERIAD

3. Ar ôl ystyried barn y Pwyllgor am y ddogfen ymgynghorol a threfniadau argraffu, bwriedir cyhoeddi'r ddogfen cyn gynted â phosibl ym mis Rhagfyr. Cynhelir cyfarfod llawn i ystyried y papur ar 28 Tachwedd.

### CEFNDIR

4. Mae'r ddogfen ymgynghorol yn nodi cynigion y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer polisi tai yng Nghymru, yng ngoleuni argymhellion Tasgluoedd y Strategaeth Dai a Phapur Gwyrdd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar dai *Quality and Choice – a decent home for all.* Cyn hyn, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau'r Tasgluoedd (LGH-03-00 p.1) a chynigion y Papur Gwyrdd (LGH-03-00 p.2) ar 18 Mai. Ar 12 Gorffennaf (LGH-08-00 p.5), bu'r Pwyllgor hefyd yn ystyried sut y dylid ymateb i'r Papur Gwyrdd a daethpwyd i gytundeb yngln â hyn.

### YSTYRIAETH

5. Mae prif elfennau'r ddogfen ymgynghorol wedi'u nodi isod. Caiff 'Crynodeb Gweithredol' ei gynnwys yn y ddogfen cyn ei chyhoeddi.

**Pennod 2 – Prif Gerrig Milltir**

6. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r cefndir a'r prif gerrig milltir wrth ddatblygu strategaeth dai genedlaethol i Gymru, gan gynnwys rhai o'r datblygiadau pwysig a welwyd ym maes polisi tai wrth i'r broses hon fynd rhagddi. Mae'r ddogfen ymgynghorol yn adeiladu ar y gwaith y mae'r Cynulliad Cenedlaethol a'i bartneriaid wedi'i wneud yn barod.

**Pennod 3 – Rôl Tai**

7. Mae'r bennod hon yn disgrifio'r cyd-destun strategol a rôl strategaeth dai genedlaethol wrth gyflawni nodau ac amcanion Cynllun Strategol y Cynulliad Cenedlaethol a 'Rhoi Cymru'n Gyntaf – Partneriaeth ar gyfer Pobl Cymru'.

8. Mae'n crynhoi'r prif elfennau sy'n ymwneud â thai yng nghynigion y Gyllideb a gyhoeddwyd ar 19 Hydref, gan gynnwys yr arian ychwanegol canlynol dros 3 blynedd y Gyllideb:

- £2.1 miliwn o Grant Refeniw Tai Cynaliedig, i ddarparu 200 o welyau ychwanegol bob blwyddyn erbyn 2002-2003 i hwyluso'r gwaith o ymestyn y categorïau blaenoriaeth o bobl ddigartref sydd angen llety.
- £40 miliwn i helpu awdurdodau lleol i wella tai yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, gyda'r pwyslais ar adfywio cymunedau.
- £28 miliwn i ariannu'r gwaith o ymestyn y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf sydd wedi'i hanelu at hyd at 100 o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru, a rhaglenni ategol eraill.
- £3.5 miliwn i ariannu 15 o brosiectau ychwanegol i helpu i sicrhau nad yw pobl yn cysgu allan ac i nesáu at darged GwellCymru ar gyfer 2010 o lai na 500 o deuluoedd digartref mewn cartrefi dros dro.
- £6 miliwn i ymestyn y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref o 30,000 i 38,000 o dai erbyn 2003, a symud tuag at y targed o ddiwallu anghenion pob t sy'n dioddef o dlodi tanwydd erbyn 2010.

**Pennod 4 – Strategaeth Genedlaethol i Arwain Gweithredu Lleol**

9. Y strategaeth genedlaethol fydd y fframwaith polisi y bydd strategaethau a gweithredu lleol yn deillio ohono i sicrhau bod yna dai i ddiwallu anghenion pobl a bod ganddynt ddewis yn hyn o beth. Er mai dogfen wedi'i chyhoeddi fydd y strategaeth genedlaethol, bydd yn set ddeinamig o bolisïau a fydd yn newid yn ôl y farchnad a dylanwadau eraill. Bydd yn ddogfen waith a fydd yn cael ei monitro, ei hadolygu a'i diweddaru mewn proses agored ar y cyd ag eraill. Mae'n hanfodol bod y polisïau y bydd y Cynulliad Cenedlaethol a'i bartneriaid yn ymgyrraedd atynt yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o'r pynciau llosg a'r sefyllfa yng Nghymru. Mae hyd a lled gwaith y Cynulliad Cenedlaethol ym maes tai a'i alluoedd ymchwil wedi'u hatgyfnerthu'n ddiweddar a bydd hynny'n chwarae rhan bwysig o ran datblygu polisi yn y dyfodol.

**Pennod 5 – Rôl Strategol yr Awdurdod Lleol**

10. Mae'r ddogfen ymgynghorol yn tanlinellu pwysigrwydd rôl strategol awdurdodau lleol. Mae'n cytuno â barn Tasgluoedd y Strategaeth Dai y dylid gwahanu swyddogaethau strategol a rôl darparu gwasanaethau/swyddogaethau gweithredol awdurdodau lleol (dyma farn y Pwyllgor hefyd yn ei ymateb i'r Papur Gwyrdd ar Dai). Mae'r bennod hefyd yn nodi'r bwriad i ymgynghori'n fanwl ar gyflwyno cynlluniau busnes tai. Byddai'r rhain yn ceisio sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu asesu'n well anghenion buddsoddi eu stoc, a'r modd y'u diwellir.

**Pennod 6 – Adfywio Ein Cymunedau/Mynd i'r Afael ag Anfantais Gymdeithasol**

11. Mae'r bennod hon yn crynhoi cynigion y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol drwy Rhoi Cymunedau'n Gyntaf a'r rhaglenni a oedd yn ei rhagflaenu. Byddwn yn ymgynghori'n fanwl ar ffurf derfynol y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn fuan. Ymhlith y cynigion yng Nghyllideb y Cynulliad Cenedlaethol y mae £28 miliwn yn ychwanegol at ddibenion cymunedol dros y 3 blynedd nesaf i ymestyn y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf sydd wedi'i hanelu at y 100 cymuned mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

**Pennod 7 – Diwallu'r Angen a'r Galw am Dai**

12. Mae gan y system cynllunio defnydd tir rôl allweddol i'w chwarae wrth gynllunio ar gyfer datblygu tai yn y dyfodol. Mae Tasgluoedd y Strategaeth Dai yn gwneud nifer o argymhellion ar y cydadwaith rhwng polisi tai a pholisi cynllunio ar lefel genedlaethol a lleol. Mae'r argymhellion hyn yn cael eu hystyried ar y cyd ag argymhellion y Fforwm Cynllunio Defnydd Tir ar baratoi canllawiau cynllunio diwygiedig y Cynulliad Cenedlaethol 'Polisi Cynllunio Cymru', y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi er mwyn ymgynghori arno ym mis Ionawr 2001.

13. Yn unol ag argymhelliad Tasgluoedd y Strategaeth Dai ar gyfer cynnal asesiad cenedlaethol o'r angen am dai, roedd y Panel Ymgynghorol Ymchwil Tai a sefydlwyd yn ddiweddar yn gefnogol i'r egwyddor o gynnal Holiaduron Cartrefi Cymru yn rheolaidd, law yn llaw ag Arolwg llai o gyflwr stoc Cymru, a fyddai'n darparu ychydig o wybodaeth ar yr angen am dai. Drwy'r arolwg, byddid yn cyfuno asesiad o anghenion tai ac yn casglu data ar ystod eang o ffactorau cymdeithasol ac economaidd eraill.

14. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn parhau i annog awdurdodau lleol i gynnal asesiadau o anghenion tai lleol gyda chymorth cyllid grant a chyngor.

**Pennod 8 – Prynu Tai Cynaliadwy**

15. Mae'r bennod hon yn nodi cynigion y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer cefnogi pobl sy'n berchen ar dai a helpu eraill i brynu tai, lle bo hyn yn opsiwn cynaliadwy.

## Adnewyddu'r Sector Preifat

16. Mae'r papur yn adlewyrchu cynigion y Papur Gwyrdd ar Dai ar gyfer diwygio'r drefn grant adnewyddu tai i roi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol a'r rhyddid iddynt benderfynu ar flaenoriaethau o ran defnyddio adnoddau, yn unol ag anghenion lleol. Cefnogwyd y cynigion hyn gan y Pwyllgor yn ei ymateb i'r Papur Gwyrdd. Mae'r cynigion yng Nghyllideb y Cynulliad Cenedlaethol yn darparu £40 miliwn yn ychwanegol dros y 3 blynedd nesaf i wella tai yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, gyda phwyslais arbennig ar adfywio cymunedau.

## Prynu Tai Rhad

17. Mae'r papur ymgynghorol yn awgrymu rôl dymor hir ar gyfer cynlluniau prynu tai rhad, lle maent yn ateb gofynion a blaenoriaethau lleol. Wrth geisio sicrhau bod cynlluniau o'r fath yn para'n berthnasol i'r amgylchiadau cyfredol, mae'r papur yn gwahodd sylwadau ar gael mwy o hyblygrwydd wrth roi'r cynlluniau hyn ar waith.

18. Mae'r papur yn cydnabod yr effaith y mae'r Hawl i Brynu wedi'i chael ar lefel y perchnogion tai yng Nghymru dros yr 20 mlynedd diwethaf. Nododd Tasgluoedd y Strategaeth Dai bod angen deall yn well effaith fwy cyffredinol Hawl i Brynu. Mae'r papur yn ceisio barn am argymhelliad y Tasgluoedd y dylid cyfyngu'r Hawl i Brynu er mwyn diogelu'r stoc tai cymdeithasol sy'n weddill mewn ardaloedd gwledig, ac yn gwahodd barn am effeithiolrwydd y cyfyngiadau cyfredol ar ailwerthu eiddo o'r fath mewn Parciau Cenedlaethol ac ardaloedd gwledig dynodedig eraill. Byddai angen cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol cyn y gellid newid y trefniadau hyn.

## Eraill

19. Mae'r papur hefyd yn tanlinellu newidiadau arfaethedig i'r broses o brynu a gwerthu tai, diwygio prydlesi a chyflwyno cyd-ddaliadaeth sydd eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad eang.

## Pennod 9 – Sector Rhentu Preifat Ffyniannus

20. Mae'r bennod hon yn cydnabod rôl bwysig y sector rhentu preifat wrth ddiwallu gofynion y rheini nad ydynt yn gallu, neu sy'n dewis peidio, prynu eu cartrefi eu hunain am dai. Mae'r bennod yn nodi dymuniad y Cynulliad Cenedlaethol i weld sector rhentu preifat iach, llewyrchus sydd wedi'i reoli'n dda ag ynddo gartrefi mewn cyflwr da. Mae angen i'r Cynulliad Cenedlaethol gael darlun llawer cliriach o natur a phroblemau'r sector i helpu i ddatblygu polisïau sy'n briodol i anghenion Cymru. Mae ymchwil yn cael ei ddatblygu i'r perwyl hwn.

21. Mae’r papur yn adlewyrchu cynigion y Papur Gwyrdd ar Dai i gyflwyno trwyddedau gorfodol a dewisol ar Dai Aml-ddeiliadaeth. Mae’r Cynulliad Cenedlaethol hefyd yn bwriadu cymryd camau mewn perthynas ag argymhellion Tasgluoedd y Strategaeth Dai drwy sicrhau bod modd defnyddio cynlluniau ernes ledled Cymru a chan sefydlu arferion gorau ar gyfer cynlluniau rheoli blaen-dal. Rhoddir ystyriaeth hefyd i ganlyniadau’r gwaith ymchwil i gynlluniau yn Lloegr ar gyfer achredu landlordiaid i weld a ydynt yn berthnasol i Gymru.

## Pennod 10 – Cartrefi o Ansawdd i’w Rhentu ar gyfer y 21 Ganrif

22. Mae’r bennod hon yn ymwneud ag ansawdd tai awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru a’r modd y’u rheolir.

### Ansawdd

23. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn parhau i annog awdurdodau lleol i ystyried yr ystod lawn o opsiynau sydd ar gael i ariannu’r gwaith o wella’u stoc. Mae nifer o gynigion manwl yn y papur, gan gynnwys gohirio’r dreth sy’n daladwy ar enillion cyfalaf dros ben sy’n deillio o drosglwyddo stoc o Ebrill 2001 am 3 blynedd; helpu awdurdodau i dalu dyledion; diddymu’r cyfyngiad ar orfod trosglwyddo o fewn blwyddyn; a datblygu canllawiau arferion da ar gydymwneud â thenantiaid mewn prosiectau mawr. Rhoddir ystyriaeth hefyd i ganlyniad adolygiad trosglwyddo stoc y Pwyllgor Llyowdraeth Leol a Thai, pan fyddant ar gael.

24. Nid yw’n fwriad cyflwyno cwmnïau hyd braich, fel yr argymhellir yn y Papur Gwyrdd ar Dai, ond byddwn yn parhau i adolygu’r sefyllfa. Mae’r papur yn ceisio sylwadau ar opsiynau eraill, megis cyflwyno cyfrifon adnoddau, os yw’r Cynulliad Cenedlaethol yn fwy amwys am y budd posibl. Cyflwyno ‘Lwfans Atgyweiriadau Mawr’ yw un o brif nodweddion cyfrifon adnoddau yn Lloegr. Byddai’r lwfans yn rhoi arian penodol i awdurdodau i wneud gwaith atgyweirio mawr ar eu stoc, a gellid ei ddefnyddio ar gyfer cynlluniau Mentrau Ariannu Preifat. Mae’r papur yn gwahodd barn am gyflwyno’r lwfans yng Nghymru.

### Rheoli

25. Hoffai’r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau tegwch a chysondeb o ran egwyddor rhwng tenantiaid sicr awdurdodau lleol a thenantiaid aswiriedig landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Bwriedir, felly, archwilio’r manteision a’r opsiynau o ran symud i ffurf sengl ar ddaliadaeth ar gyfer mwyafrif tenantiaid awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol i wneud hyn. Mae’r papur ymgynghorol yn nodi bod y Cynulliad Cenedlaethol yn awyddus i gynnig dewis wrth ddyrannu tai cymdeithasol, gan ymateb i ddewis ymgeiswyr yn ogystal â’u hanghenion. Caiff "Seinfwrdd" ei sefydlu i ystyried yn llawn y modd y gellir cyflawni hyn.

26. Mae Gwerth Gorau yn darparu’r fframwaith ar gyfer sicrhau mwy o atebolrwydd a gwella’r

ffordd y mae tai a gwasanaethau eraill yn cael eu darparu gan awdurdodau lleol. Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn bwrw ati i gymhwyso egwyddorion Gwerth Gorau i drefn rheoleiddio landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, yn ogystal â datblygu dangosyddion perfformiad cyffredin ar gyfer y ddau sector.

27. Mae’r papur yn argymell nifer o fesurau i annog tenantiaid i gymryd mwy o ran yng Ngymru, gan gynnwys canllawiau sy’n nodi safonau clir ar gyfer landlordiaid cymdeithasol. Mae hyn yn dilyn canllawiau a chyllid o £0.5 miliwn a ddarparwyd eleni i helpu i gyflwyno Compactau Cyfranogiad Tenantiaid yng Nghymru.

**Rhenti Tai Cymdeithasol a Fforddiadwyedd**

28. Mae’r papur yn cyndabod y cysylltiadau pwysig rhwng lefelau rhenti a mynd i’r afael ag anfantais gymdeithasol. Os bydd lefelau rhent yn deg a fforddiadwy, bydd mwy o gymhelliad i denantiaid roi’r gorau i fudd-daliadau a chwilio am waith. Yn ôl yr adran hon, bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn:

- parhau i weithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol i sicrhau systemau rhent teg a thryloyw sy’n cynnig rhenti fforddiadwy.
- rheoleiddio rhenti landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i sicrhau lefelau sy’n fforddiadwy, tra’n galluogi landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i fod yn ariannol hyfyw a chaniatáu iddynt ddarparu gwasanaethau o safon dda.
- cymharu’r gwahaniaethau rhwng lefelau rhent awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, a cheisio mynd i’r afael â gwahaniaethau nad oes modd eu cyfiawnhau.

29. Yn benodol, bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio mewn partneriaeth â phob landlord cymdeithasol i’w galluogi i sefydlu cynlluniau hir dymor i adolygu lefelau rhent yn rheolaidd ac ailstrwythuro eu systemau rhent lle ceir anghysondebau mawr. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cefnogi hyn drwy ymchwilio i lefelau rhent a chostau cysylltiedig, a chanllawiau ar bolisïau rhent lleol.

**Pennod 11 – Darparu Cartrefi Newydd o Ansawdd**

30. Mae’r bennod hon yn adeiladu ar y cynigion a ddisgrifir mewn penodau eraill, megis newidiadau i’r drefn Grant Adnewyddu Cartrefi. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn parhau i annog awdurdodau lleol i arolygu cyflwr eu stoc, gyda help canllawiau a chyllid.

31. Bydd ‘System Graddio Iechyd a Diogelwch’ newydd yn ffordd o fesur cyflwr cartrefi a bydd a wnelo’n fwy ag iechyd a diogelwch trigolion, gan ddarparu safon sy’n diwallu anghenion y 21 ganrif. Mae hyn yn dibynnu a fydd amser gan y Senedd i gyflwyno’r ddeddfwriaeth sylfaenol angenrheidiol.

32. Bydd y ‘Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref’ newydd yn mynd i’r afael â phroblemau "tlodi tanwydd" yng nghartrefi tlotaf Cymru. Mae’r cynigion yng Nghyllideb y Cynulliad Cenedlaethol yn darparu £6 miliwn ychwanegol dros y 3 blynedd nesaf i gynyddu nifer y cartrefi sy’n elwa ar y cynllun o 30,000 i 38,000 erbyn 2003. Bydd hefyd yn ein galluogi i nesáu at y targed yn GwellCymru o ddiwallu anghenion pob t sy’n dioddef o dlodi tanwydd erbyn 2010.

33. Mae’r bennod hefyd yn nodi y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn parhau i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU er mwyn adolygu’r baich Treth ar Werth sy’n effeithio ar waith atgyweirio, cynnal a chadw ac adnewyddu.

34. Ymhlith y cynigion eraill y mae:

- adolygu’r ‘Gofynion Ansawdd Datblygu’ i sicrhau y bydd hen stoc a stoc newydd mewn cyflwr da, yn ynni-effeithiol a bod modd eu haddasu i anghenion deiliaid wrth i’r rheini newid
- hyrwyddo a mabwysiadu egwyddorion ‘Egan’ ym maes adeiladu tai

**Pennod 12 – Diwallu Anghenion Grwpiau Penodol**

35. Mae’r bennod hon yn delio â chymorth i grwpiau hawdd eu niweidio a grwpiau difreintiedig, yn unol ag ymrwymiad y Cynulliad Cenedlaethol i gyfle cyfartal.

**Cefnogi Pobl**

36. Mae’r adran hon yn nodi cynlluniau’r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer rhoi’r polisi newydd hwn ar waith a’r fframwaith ariannu ar gyfer darparu cymorth ar ffurf tai i bobl hawdd eu niweidio, megis y rheini ag anawsterau dysgu neu broblemau iechyd meddyliol, a gyhoeddwyd ar 3 Awst.

**Grwpiau lleiafrifol Du ac Ethnig**

37. Mae’r adran hon yn ymdrin â’r gwaith o roi cyfle i mwy o bobl o gymunedau du ac ethnig i gael tai cymdeithasol. Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn cymryd camau i roi argymhellion yr adroddiad *From the Margins to the Centre* ar waith, ac mae hwn wedi’i ledaenu’n eang. Yn ddiweddar, yr ydym wedi noddi cynhadledd ar y cyd â’r Comisiwn Cyfle Cyfartal ar anghenion lleiafrifoedd du ac ethnig am dai ac rydym yn ariannu astudiaeth i weld ymarferoldeb sefydlu cymdeithas dai sy’n cael ei harwain gan bobl dduon. Eir ati hefyd i ddatblygu strategaeth benodol i ddiwallu anghenion grwpiau du ac ethnig. Bydd hyn yn rhan o’r strategaeth dai genedlaethol ehangach ac yn mynd i’r afael â materion allweddol megis meithrin gallu a pher,

ymchwil, cyfle teg i gael tai ac aflonyddwch hiliol.

### Pobl Hn a'r Anabl

38. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cymryd camau buan, gan ddarparu £200,000 yn y flwyddyn gyfredol, i gyflawni'i darged yn GwellCymru, sef ymestyn cwmpas gwasanaethau Gofal a Thrwsio i gynnwys Cymru gyfan. Drwy gyllid hir dymor oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol a'r newidiadau arfaethedig i drefniadau adnewyddu'r sector preifat, bydd gan Gofal a Thrwsio mwy o gyfle a chwmpas i ymestyn y cymorth a'r cyngor maent yn eu darparu.

### Tai am Oes

39. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol eisoes wedi penderfynu y bydd yn rhaid i'r holl dai newydd sy'n cael eu hadeiladu gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru ar ôl Ebrill 2001 gael eu hadeiladu at safonau Tai am Oes. Caiff egwyddorion Tai am Oes a thai heb rwystrau eu hyrwyddo ar draws deiliadaethau.

### Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid

40. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wrthi'n trafod â'r Gwasanaeth Cymorth Lloches Cenedlaethol ac asiantaethau eraill y materion sy'n wynebu cymdeithasau tai sy'n darparu gwasanaethau i geiswyr lloches. Caiff canllawiau a chyngor arferion da ar y ddarpariaeth gwasanaethau tai i geiswyr lloches a ffoaduriaid eu paratoi.

## Pennod 13 – Digartrefedd a Chysgu Allan

41. Yn y bennod hon ceir argymhellion ar gyfer cyflawni'r amcanion yn GwellCymru o ddileu'r angen i unrhyw un gysgu allan a lleihau'r achosion o ddigartrefedd.

### Comisiwn Digartrefedd

42. Un o brif flaenoriaethau'r Cynulliad Cenedlaethol yw mynd i'r afael â digartrefedd a chysgu allan. Er mwyn delio â'r materion hyn cyn gynted â phosibl, ond mewn ffordd gynhwysfawr, caiff Comisiwn Digartrefedd ei sefydlu a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o blith y rheini sydd â'r cyfrifoldeb am fynd i'r afael â digartrefedd a chysgu allan a phobl sy'n gweithio yn y maes. Bydd y Comisiwn yn gweithio ar sail gorchwyl a gorffen ac yn cwblhau ei waith erbyn haf 2001.

### Strategaethau Digartrefedd Lleol

43. Credir mai datblygu strategaethau digartrefedd lleol cynhwysfawr yw’r ffordd orau o fynd i’r afael â digartrefedd a chysgu allan yng Nghymru. Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn darparu cyllid un-tro o £3.6 miliwn yn y flwyddyn gyfredol i helpu awdurdodau lleol i wella strategaethau lleol i ddelio â digartrefedd a chysgu allan, ac i weithio gyda’r sector rhentu preifat drwy ddatblygu cynlluniau cofrestru tai aml-ddeiliadaeth.

44. Mae’r cynigion yn y Gyllideb yn neilltuo £3.5 miliwn ychwanegol o arian adran 180 dros 3 blynedd i sefydliadau gwirfoddol sy’n gweithio gyda phobl ddigartref. Bydd y cyllid hwn yn estyn cymorth i 15 prosiect ychwanegol i helpu i gyflawni ymrwymiad y Cynulliad Cenedlaethol i ddiddymu cysgu allan, ac i helpu i wneud cynnydd yn erbyn targed GwellCymru o lai na 500 o deuluoedd digartref mewn llety dros dro erbyn 2010.

**Categorïau Digartrefedd**

45. Mae’r Papur Gwyrdd ar Dai yn cynnwys cynigion i amddiffyn pobl ddigartref yn well, gan ymestyn y rhwyd arbed statudol i grp ehangach o bobl ddigartref hawdd eu niweidio a thrwy roi hyblygrwydd i awdurdodau i helpu pobl ddigartref heb flaenoriaeth. Yn ôl y papur ymgynghorol, bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn pwyso am ddeddfwriaeth sylfaenol i’w alluogi i bennu’r trefniadau priodol yng Nghymru. Bydd y trefniadau hyn yn cymryd i ystyriaeth drefniadau newydd ar gyfer y rhai sy’n ymadael â gofal, i’w cyflwyno o Ebrill 2001, a fydd yn ymestyn cyfrifoldebau awdurdodau lleol i drefnu llety addas a darparu cefnogaeth a chymorth i’r grp hwn o bobl ifanc sy’n arbennig o hawdd eu niweidio.

46. Cyn llunio’r ddeddfwriaeth sylfaenol, mae’r Cynulliad Cenedlaethol wedi ymgynghori ar gynigion i ymestyn y categorïau presennol o bobl ddigartref sy’n cael blaenoriaeth. Ymhlith y cynigion yn y Gyllideb, rhoddir £2.1 miliwn yn ychwanegol o Grant Refeniw Tai Cynaliedig dros y 3 blynedd nesaf i ddarparu 200 yn fwy o welyau bob blwyddyn erbyn 2002-2003. Bydd hyn yn helpu pobl ddigartref a phobl eraill sy’n hawdd eu niweidio sydd ag angen cymorth arnynt i gynnal eu tenantiaethau ac felly’n hwyluso’r gwaith o ymestyn categorïau blaenoriaeth.

**Cyngor ar Dai a Gwasanaethau Gwybodaeth**

47. Mae’r Cynulliad Cenedlaethol wedi comisiynu archwiliad annibynnol o ystod a chwmpas gwasanaethau cynghori ar dai ledled Cymru. Bydd yr archwiliad hwn yn ystyried natur ac ansawdd y gwasanaethau presennol a’r cyfleoedd sydd ar gael i bobl eu defnyddio. Bydd hyn yn helpu i ledaenu arferion gorau gyda’r nod o hyrwyddo gwasanaethau cynghori o ansawdd da ym mhob maes .

**Foyers**

48. Yn unol â barn Tasgluoedd y Strategaeth Dai, mae’r Cynulliad Cenedlaethol wedi cydweithio’n glòs â Ffederasiwn Foyer Cymru a chyrff eraill i ddatblygu hyblygrwydd yn y

ddarpariaeth Foyer sy’n unigryw i’r Deyrnas Unedig. Yn y dyfodol, bydd darpariaeth Foyer yn llai ac yn fwy gwasgaredig gan gyfuno ansawdd da a llety hunangynhaliol â gwell cyfleoedd i ddatblygu sgiliau bywyd a hyfforddiant ar gyfer gwaith. O gydnabod lefel uchel ac anghenion cymhleth y bobl ifanc dan sylw, bydd 100 y cant o welyau yn gymwys i gael Grant Refeniw Tai Cynaliedig, lle mae darpariaeth o’r fath yn gydnaws ag anghenion a blaenoriaethau lleol.

**Pennod 14 – Budd-dal Tai**

49. Mae’r bennod hon yn ymdrin ag agweddau ar Fudd-dal Tai y cyfeirir atynt yn y Papur Gwyrdd ar Dai. Er ei bod ar y cyfan yn cefnogi’r newidiadau a gynigir, mae’r bennod yn ei gwneud yn glir y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio’n glòs gyda Llywodraeth y DU i sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i effaith bosib y cynigion yng Nghymru. Yn arbennig, mae’r papur yn pwysleisio’r angen am gynnal adolygiad cynhwysfawr gyda golwg ar symleiddio proses gweinyddu Budd-daliadau Tai. Mae’r papur yn gofyn ai da o beth fyddai gweinyddu Budd-daliadau Tai mewn modd unffurf trwy’r Deyrnas Unedig. Yn ôl y papur, mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn rhannu’r un gofidiau â Thasgluoedd y Strategaeth Dai a grwpiau eraill am effeithiau cyfyngu ar y Budd-dal Tai y gellid ei dalu i bobl dan 25 oed all ei gwneud hi’n anodd i bobl ifanc gael llety a’i gadw. Dywed y papur y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn gofyn i Lywodraeth y DU gynnig opsiwn yn y Papur Gwyrdd ar Dai i ymestyn y diffiniad o Rent Ystafell Sengl fel bod modd defnyddio ystod o renti cyd-lety yn lle’r diffiniad cyfredol ohono fel llety un ystafell nad yw’n hunangynhaliol.

**Pennod 15 – Diogelwch Tai a Chymuned**

50. Mae’r bennod hon yn disgrifio nifer o fentrau sy’n ymwneud â thai neu feysydd cysylltiedig a fydd yn cyfrannu at nod trawsffiniol y Cynulliad Cenedlaethol o sicrhau bod pobl yn cael byw mewn cymunedau ddi-drosedd sy’n ddi-fygythiad. Yn benodol:

- hybu’r arfer o ‘Ddiogelu trwy Ddylunio’ym mhob datblygiad tai newydd, gyda chanllawiau cynllunio atodol i’w hategu.
- astudiaeth wedi’i noddi gan y Cynulliad Cenedlaethol o’r arfer gorau ymhlith landlordiaid ar gyfer ceisio’r ateb cyfreithiol gorau wrth ymdrin ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol, hynny i ddylanwadu ar weithredu yn y dyfodol.
- datblygu’r arfer gorau wrth gymodi.
- lledaenu’r gorau yn y cynlluniau warden cymdogaeth a noddir gan y Cynulliad Cenedlaethol.
- nawdd i systemau teledu cylch cyfyng yng nghanol trefi, ystadau tai a mannau cyhoeddus eraill. Mae cyfanswm o £3 miliwn wedi’i neilltuo ar gyfer darparu systemau o’r fath ar ystadau tai.

**CYDYMFFURFIAETH**

## Pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol

51. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael paratoi cynigion ar gyfer strategaeth dai genedlaethol ac ymgynghori arnynt yn unol â'i ber cyffredinol yn adran 40 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 ("Deddf 1998"). Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol amrywiaeth eang o bwerau statudol eilaidd i ddatblygu polisi tai yng Nghymru a'i roi ar waith. Er bod cyfyngiadau ar ei bwerau mewn perthynas â'r sector preifat, gall annog ffyrdd gwahanol a gwell o wneud pethau, er enghraifft, trwy drafod â benthycwyr ac adeiladwyr tai. Mae Adran 33 Deddf 1998 yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ymdrin â Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch cynigion y mae gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol arnynt, neu ynghylch swyddogaethau heb eu datganoli sy'n effeithio ar Gymru.

## Goblygiadau Ariannol

52. Mae'r ddogfen ymgynghorol yn adlewyrchu cynigion y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer cyllideb yr hydref a'r blaenoriaethau a geir yng Nghynllun Strategol y Cynulliad Cenedlaethol a 'Rhoi Cymru'n Gyntaf: Partneriaeth ar gyfer Pobl Cymru'. Lle nad oes adnoddau ychwanegol wedi'u clustnodi'n benodol yn y Gyllideb ddrafft, caiff y cynigion eu darparu naill ai drwy raglenni sy'n bod eisoes neu fe'u hystyrir yng nghyllidebau'r dyfodol.

53. Ymgynghorwyd â'r Is-adran Cynllunio Ariannol, Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad ac Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol ac maent yn fodlon â'r agweddau ariannol a'r rheini sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth.

**Cangen Strategaeth Genedlaethol**

**Yr Is-adran Adnewyddu Tai a Chymunedau Tachwedd 2000**